# Cynllun Gweithredu

## Adolygiad Dilynol Archwilio Mewnol: Gwasanaeth Gadael Gofal – Taliadau Ariannol

## Dyddiad: Hydref 2014

## Perchennog Cynllun Gweithredu: Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

| Allwedd Difrifoldeb Risg/Mater Corfforaethol | |
|---|---|
| (Coch) | **Critigol** – Ymyrraeth sylweddol gan y Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Cabinet |
| (Ambr) | **Mawr** - Ymyrraeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a/neu Tîm Gweithredu Corfforaethol gyda'r Cabinet |
| (Melyn) | **Cymedrol** - Gallu delio â'r risg/mater ar lefel gwasanaeth. Efallai y bydd angen darparu diweddariadau i'r uwch reolwyr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth |

| Rhif Risg / Mater | Risg / Mater | Camau i'w cymryd, Cyfrifoldeb ac Amserlen | Statws Cyfredol | Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae angen cynnal adolygiad o'r broses sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer gwneud taliadau i'r rheiny sy'n gadael gofal. | • Trefnu cyfarfod gyda'r Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau (a staff eraill yn ôl yr angen) er mwyn trafod dulliau amgen o gaffael nwyddau a/neu wneud taliadau i'r rheiny sy'n gadael gofal.<br>**Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal / Arweinydd Ymarfer / Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau – Mai 2014** | **Yn weddill** | Y Rheolwr Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Plant i gyfarfod â'r Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro a/neu Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau i ystyried opsiynau eraill a allai fod ar gael mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau am brisiau gostyngol.<br>**Amserlen ddiwygiedig – Rhagfyr 2014** |
| | | • Yn dilyn yr uchod, cynnal adolygiad o'r broses dalu bresennol a gweithredu newidiadau fel y bo'n briodol / ofynnol.<br>**Rheolwr Gwasanaeth –Plant sy'n Derbyn Gofal – Medi 2014** | **Ar y gweill**<br>Archwiliwyd gwahanol ddarparwyr cyfrifon/cardiau. Mae gan yr Undeb Credyd gardiau sy'n diwallu anghenion pobl ifanc gyda rheolaethau ychwanegol, yn dibynnu ar eu hoedran (dim gorddrafft, gallu eu defnyddio mewn siopau ac i dynnu arian parod). Mae'r Undeb Credyd hefyd yn derbyn un taliad BACS ac yn gallu | Arweinydd Ymarfer i gwrdd â'r Swyddog Asesu Ariannol sy'n prosesu taliadau i'r rheiny sy'n gadael gofal. Cyfarfod pellach wedi ei drefnu gyda rheolwr yr Undeb Credyd i gwblhau cytundeb cyn gweithredu.<br>**Amserlen ddiwygiedig – Rhagfyr 2014** |

| Rhif Risg / Mater | Risg / Mater | Camau i'w cymryd, Cyfrifoldeb ac Amserlen | Statws Cyfredol | Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|---|
| | Dylid ystyried amcanion i gyflawni'r canlynol:<br>• Sefydlu cyfrif banc neu gyfrif amgen ar gyfer pob person sy'n gadael gofal cyn gynted ag y bo modd yn dilyn atgyfeiriad i'r gwasanaeth i'w galluogi i dderbyn taliadau yn y ffordd hon ac i ddysgu am reoli cyllideb.<br><br>• Mwyhau gwerth am arian drwy drafod gyda chyflenwyr trydydd parti, e.e. Arriva ar gyfer tocynnau bws neu gyda chyflenwyr nwyddau gwyn i gael gostyngiadau pellach trwy gytundebau fframwaith.<br><br>• Archwilio ffyrdd mwy modern a diogelach o wneud taliadau, fel defnyddio cardiau rhagdaledig lle gellir monitro a rheoli lefel y gwariant yn hawdd. Byddai hyn yn disodli'r angen i weinyddu trafodion drwy'r cyfrif arian mân, sy'n gostus ac yn llafurddwys. | Sylwer: Mae cyfrifon banc yn cael eu sefydlu ar gyfer y rheiny sy'n gadael gofal. Mae proses yn ei lle i gefnogi rhai o'r rheiny nad ydynt yn gallu rheoli materion cyllidebu. Mae hyfforddiant, cefnogaeth a chyngor yn ei le a chyfrifon banc wedi eu ceisio ar gyfer yr adeg pan fydd y gwasanaeth yn hyderus mai hyn sy'n diwallu anghenion asesedig y person ifanc orau.<br><br>• Sefydlu proses lle mae cyfrif banc pob person ifanc yn cael ei fonitro pob chwe wythnos.<br>**Arweinydd Ymarfer a Gweithwyr Cymdeithasol eraill – Mai 2014**<br><br>• I'w gynnwys yn yr adolygiad cyffredinol.<br><br>• I'w gynnwys yn yr adolygiad cyffredinol. | rhannu'r arian yn unol â'n cyfarwyddyd.<br>Mae'r Arweinydd Ymarfer wedi cyfarfod â rheolwr yr Undeb Credyd i symud ymlaen gyda'r opsiwn hwn.<br><br>**Wedi ei gwblhau**<br><br>**Yn weddill**<br><br>**Ar y gweill** | Monitro drwy oruchwyliaeth ac archwilio ffeiliau.<br><br>Cyfarfod i'w gynnal i drafod materion caffael (gweler y nodyn uchod).<br><br>Trefniadau i'w gwblhau (gweler y nodyn uchod). |

| Rhif Risg / Mater | Risg / Mater | Camau i'w cymryd, Cyfrifoldeb ac Amserlen | Statws Cyfredol | Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|---|
| | Yn ogystal, mae angen ystyried gweithio ar draws gwasanaethau i gyflawni'r prosiect hwn er mwyn manteisio ar setiau o sgiliau y tu allan i'r amgylchedd gofal cymdeithasol, e.e. trafod prisiau a marchnata. | • I'w gynnwys yn yr adolygiad cyffredinol. | **Yn weddill** | Cyfarfod i'w gynnal i drafod materion caffael (gweler y nodyn uchod). |
| 2. | Mae angen adolygu gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gyfer y rheiny sy'n Gadael Gofal, ond rydym ni'n derbyn y gallai fod yn ymarferol delio â'r ymarfer hwn ar ôl mynd i'r afael â'r mater blaenorol.<br><br>Yn gysylltiedig â hyn, mae meysydd cysylltiedig sy'n peri pryder yn cynnwys y canlynol:<br>• Dylai'r atodlen lwfansau sy'n daladwy gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan uwch reolwr priodol yn flynyddol. | • Y Rheolwr Gwasanaeth i adolygu'r atodlen<br>**Rheolwr Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Gofal – Ebrill 2014** | **Wedi ei gwblhau**<br>Adolygiad o'r broses dalu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi ei gynnal. Ni wnaethpwyd unrhyw newid. Cytuno ar daliadau'r flwyddyn ariannol nesaf yn dilyn derbyn cadarnhad o sefyllfa'r gyllideb. | Rheolwr Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Swyddog Cyllid i adolygu sefyllfa'r gyllideb. |
| | • Dylid dilyn yr un drefn ar gyfer grantiau cartref cyntaf y rheiny sy'n gadael gofal (os ydynt am barhau yn yr un modd ar ôl yr adolygiad). | • Y Rheolwr Gwasanaeth i adolygu'r atodlen<br>**Rheolwr Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Gofal – Ebrill 2014** | **Wedi ei gwblhau**<br>Fel uchod | Fel uchod |
| | • Efallai y bydd ar bob gweithiwr cymdeithasol sy'n delio â rhai sy'n gadael gofal angen rhywfaint o hyfforddiant gloywi i helpu i | • Gweithdy yn ystod cyfarfod Grŵp Ymarfer<br>**Arweinydd Ymarfer – Ebrill 2014** | **Yn weddill**<br>Ei ddal yn ôl hyd nes bydd yr aelod newydd o'r tîm yn ei swydd. | I'w gynnal ym mis Tachwedd fel rhan o ddiwrnod tîm 14+ ac Ymgynghorwyr Personol Barnardos.<br>**Amserlen ddiwygiedig –** |

| Rhif Risg / Mater | Risg / Mater | Camau i'w cymryd, Cyfrifoldeb ac Amserlen | Statws Cyfredol | Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|---|
| | godi eu hymwybyddiaeth o'r angen i gadw at y gweithdrefnau os yw'r gwasanaeth am sicrhau proses deg a chyson a bod y fframwaith ariannol yn gadarn. | • Adolygiad pellach o'r gweithdrefnau y dylid eu gwneud i adlewyrchu unrhyw newid i'r broses dalu (sy'n deillio o'r gwaith dan rif 1 uchod).<br>**Rheolwr Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Gofal**<br>**Ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r broses dalu.** | **Yn weddill** | **Tachwedd 2014** |
| 3. | Hyd nes y darperir deddfwriaeth mewn perthynas â dyletswydd a chyfrifoldeb y Cyngor tuag at bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref (dan y cytundeb Dyfarniad Southwark) mae angen canllawiau dros dro ar y cymorth ariannol sydd i'w darparu.<br><br>Bydd angen i bob gweithiwr cymdeithasol sy'n delio â'r unigolion fod yn ymwybodol o'i gynnwys ac i gadw ato wrth wneud taliadau. | • Ailysgrifennu/diweddaru'r polisi a'r canllawiau dros dro a'u rhannu gyda'r holl staff perthnasol.<br>**Rheolwr Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Gofal – Ebrill 2014**<br><br>• Adolygiad pellach o'r gweithdrefnau y dylid eu gwneud i adlewyrchu unrhyw newid i'r broses dalu (sy'n deillio o'r gwaith dan rif 1 uchod)<br>**Rheolwr Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Gofal**<br>**Ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r broses dalu.** | **Ar y gweill**<br>Diweddaru'r polisi dros dro – wedi ei gwblhau ac eithrio cynnwys datganiad sefyllfa polisi gan RM.<br><br>**Yn weddill** | I'w drafod yn y grŵp gweithredu Dyfarniad Southwark ac aelodau'r Gwasanaethau Tai.<br>**Amserlen ddiwygiedig – Rhagfyr 2014** |

| Rhif Risg / Mater | Risg / Mater | Camau i'w cymryd, Cyfrifoldeb ac Amserlen | Statws Cyfredol | Gweithredu Pellach |
|---|---|---|---|---|
| 4. | Dylai'r gwasanaeth ystyried sefydlu cytundeb gyda'r rheiny sy'n gadael gofal i sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'w Hymgynghorydd Personol neu Weithiwr Cymdeithasol am unrhyw newid yn eu hamgylchiadau e.e. pan fydd budd-daliadau DWP yn daladwy, fel nad yw'r gwasanaeth yn parhau i wneud taliadau am gyfnod amhenodol. | • Gwaith ar y gweill - mae CSDd, DWP a Barnardos ar hyn o bryd yn gweithio ar gytundeb cyfrinachedd tair ffordd a fydd yn caniatáu i wybodaeth benodol gael ei datgelu (h.y. dyddiadau dechrau derbyn budd-daliadau). Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan waith ar gytundeb lle gall y sawl sy'n Gadael Gofal wneud cais am fudd-dal chwe wythnos cyn eu pen-blwydd yn 18 oed a derbyn taliad yn fuan ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Bydd hyn yn dileu'r angen am gydbwysedd neu gyfaddawd yn ein dyletswyddau rhianta corfforaethol 'moesol' ac yn sicrhau ein bod yn fwy ymwybodol o newid mewn amgylchiadau person ifanc.<br>**Arweinydd Ymarfer – Mai 2014**<br><br>• Bydd ffurflen ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal hefyd yn cael ei llunio lle maent yn cytuno i roi gwybod am newid mewn amgylchiadau.<br>**Arweinydd Ymarfer – Mai 2014** | **Wedi ei gwblhau**<br>Cytundeb yn ei le ac yn cael ei ddefnyddio.<br><br>**Wedi ei gwblhau**<br>Y ffurflen yn ei lle ac yn cael ei defnyddio. | Monitro'r defnydd o'r cytundeb trwy oruchwylio ac archwilio ffeiliau.<br><br>Monitro'r defnydd o'r ffurflen trwy oruchwylio ac archwilio ffeiliau. |